

# Diogelu Plant

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel

Gwybodaeth i Staff, Rhieni a  
Llywodraethwyr

Ysgol Gyfun Rhydywaun



# Diogelu Plant

## \* Y Prif Egwyddorion

Yn seiliedig ar Ddeddfau Plant 1989 a 2004, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc Cymru 2011 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i'r *saith nod craidd* i ofalu fod pob plentyn yn cael:

1. Dechrau da i'w bywyd
2. Amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu ac addysgu
3. Y iechyd gorau posibl, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio
4. Mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant
5. Eu clywed, eu trin â pharch a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
6. Yr hawl i gartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. Yr hawl i beidio â bod dan anfantais oherwydd tlodi

# Diogelu Plant yn yr Ysgol

Y *saith nod* yma yw sail Polisi Diogelu Plant yr ysgol-

Rolau a Chyfrifoldebau Diogelu -

- Cam 1 – Gwaith Ataliol – trwy greu ethos positif yn yr ysgol yn seiliedig ar barch, gofal a lles.
- Cam 2 – Gwaith Amddiffynol – trwy ddilyn gweithdrefnau. Staff yn ymwybodol o’i rôl a chyfrifoldebau ac yn gwybod beth i gwneud.
- Cam 3 – Gwaith Cynhaliol – trwy gynnal disgyblion sydd wedi dioddef camdriniaeth.
- Y Person dynodedig uwch yn yr ysgol sy’n gyfrifol am reoli Diogelu Plant yw **MISS LISA WILLIAMS**

# Diogelu Plant

## Diffiniadau o Gam-drin Plant

- \* **Cam-drin Corfforol:** gall hyn olygu curo, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi, llosgi â dŵr, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn. Gall hefyd olygu fod rhiant neu warcheidwad yn creu neu ffugio salwch i'r plentyn.
- \* **Cam-drin Emosiynol:** cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol dros amser gan achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus o ran datblygiad emosiynol y plentyn. Ee cyfleu i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu bod neb yn ei garu neu ei fod yn annigonol. Gall cynnwys peri i blentyn deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, ee drwy orfod bod yn dyst i gam-drin domestig neu drwy gael ei fwlio yn y cartref.
- \* **Cam-drin Rhywiol:** gall hyn olygu gorfodi neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.
- \* **Esgeulusdod:** Esgeulusdod yw'r methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol. Ee peidio darparu bwyd, llety a dillad digonol, methu a diogelu plentyn rhag niwed neu berygl corfforol, neu methu sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth meddygol briodol.

# Diogelu Plant

## Sut i ymateb pan amheuir camdriniaeth

Os bydd plentyn yn dweud wrthy ch chi eu bod nhw neu berson ifanc arall yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, fe ddylech chi:

- \* ddangos i'r plentyn eich bod chi wedi clywed, a'ch bod chi'n ei gymryd o ddifrif
- \* annog y plentyn i siarad, ond heb roi syniadau yn ei ben neu ofyn cwestiynau arweiniol
- \* peidio â thorri ar draws y plentyn yn siarad
- \* peidio â gwneud i'r plentyn ailadrodd hyn
- \* esbonio'r camau mae'n RHAIID i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n berthnasol i'w oedran a dealltwriaeth
- \* peidio ag addo i'w gadw'n gyfrinachol
- \* gwneud nodiadau ysgrifenedig cyn gynted â phosibl - gair am air os yn bosibl
- \* nodi'r dyddiad, amser, lleoliad a'r bobl oedd yn bresennol yn y drafodaeth
- \* peidio â mynd wyneb yn wyneb â'r camdriniwr honedig.

- Y Person dynodedig uwch yn yr ysgol sy'n gyfrifol am reoli

Diogelu Plant yw **MISS LISA WILLIAMS**

# Diogelu Plant Arfer Dda yn Ysgol Gyfun Rhydywaun

\* Creu ethos o amddiffyn.....rydym yn diogelu ein plant drwy...

- Parch
- Clod
- Ethos hapus a phositif
- Datblygu Hunan-Werth
- Adnabod yr Unigolyn
- Sefydlu perthynas dda
- Rheoli, Cynnal a Gwella Ymddygiad
- Cydnabod Llwyddiant
- Datblygu Hunan-Gymhelliant
- Rôl y PCLI
- Rôl y Tiwtor Personol
- Mentora
- Hyrwyddo presenoldeb da

**CYSONDEB** o ran gweithredu gan bawb

- \* Nyrs / Cynghorwr/ Swyddog Lles & Ymyrraeth
- \* ABCH
- \* Gwrth Fwlian
- \* Addysg Perthnasoedd a Rhyw
- \* Iechyd a Diogelwch
- \* Asiantaethau Allanol
- \* Cyngor yr Ysgol
- \* E-ddiogelwch

**Am ragor o wybodaeth gweler:**

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150113-keeping-learners-safe-easy-read-cy.pdf>